# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 08 Mawrth 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhwydweithiau cefnogi sydd ar gael i'r bobl hynny sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru. (WAQ49701)

**Peter Black (De Orllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waredu gwastraff peryglus yng Nghymru. (WAQ49702)

**Peter Black (De Orllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog wneud sylw am gynlluniau i ddatblygu cnydau Biomas yng Nghymru. (WAQ49703)

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â throseddau tipio anghyfreithlon. (WAQ49704)

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd cynhesu byd-eang yn effeithio ar Gymru. (WAQ49705)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i gyfyngu ar ddefnyddio maglau yng Nghymru. (WAQ49706)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu cyllid ar gyfer amddiffyn rhag y môr a rhag llifogydd. (WAQ49707)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei ganllawiau cynllunio i awdurdodau lleol. (WAQ49708)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisïau ar gyfer amddiffyn cefn gwlad Cymru. (WAQ49709)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd Rheoliadau Gosod Gatiau. (WAQ49710)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r bobl hynny sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru. (WAQ49711)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint gostiodd cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad yn y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. (WAQ49712)

**Peter Black (De Orllewin Cymru):** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i addewidion maniffesto Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth benderfynu ar y gyllideb ddrafft. (WAQ49713)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Er 2003, i sawl Cwestiwn Ysgrifenedig y mae'r Gweinidog wedi rhoi'r ateb 'Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog'. (WAQ49714)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pam fod Comisiwn Iechyd Cymru wedi gwrthod ariannu ysgogi yn nwfn yr ymennydd ar gyfer pobl â Chlefyd Parkinson, ac a oedd y penderfyniad hwn wedi ei seilio ar dystiolaeth. (WAQ49715)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o ddioddefwyr Clefyd Parkinson yng Nghymru a allai fod yn gymwys i dderbyn triniaeth Ysgogi yn Nwfn yr Ymennydd (YNY). (WAQ49716)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag ymgynghorwyr neu arbenigwyr am driniaeth Ysgogi yn Nwfn yr Ymennydd (YNY) ar gyfer cleifion â Chlefyd Parkinson. (WAQ49717)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd fydd Comisiwn Iechyd Cymru yn cyfarfod â Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG i ddatblygu Gwasanaethau Anhwylder Bwyta Trydyddol wedi eu lleoli yn y gymuned, er mwyn trin pobl ag anhwylderau bwyta mwy difrifol. (WAQ49718)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd fydd cynllun Comisiwn Iechyd Cymru i gynllunio Gwasanaethau Anhwylder Bwyta Trydyddol wedi eu lleoli yn y gymuned wedi ei gwblhau, a ble a phryd y mae'n debygol o gael ei weithredu. (WAQ49719)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau arbenigol i drin cleifion ag anhwylderau bwyta. (WAQ49720)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa Fyrddau Iechyd Lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin sy'n datblygu eu cynlluniau gweithredu lleol hwy eu hunain yn dangos sut y maent yn bwriadu gweithredu camau Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol allweddol a dod â gwasanaethau iechyd meddwl ychwanegol i'w hardaloedd. (WAQ49721)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithio gydag Ymddiriedolaethau GIG i ddatblygu timoedd maes arbenigol a chyfleusterau gofal dydd i gefnogi cleifion sydd ag anhwylderau bwyta yn eu cartrefi eu hunain. (WAQ49722)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd fydd Comisiwn Iechyd Cymru wedi cwblhau ei adolygiad o'r galw am welyau mewnol a fydd yn sail i bennu nifer y gwelyau a gomisiynir yn yr Uned CAMHS ac Anhwylder Bwyta newydd yng Nglanrhyd. (WAQ49723)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd fydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu Llwybr Gofal Anhwylderau Bwyta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ49724)